

# Cefnogi Ieithoedd Modern yn eich Ysgol

## Canllaw i Lywodraethwyr



### Adroddiad Tueddiadau Iaith yng Nghymru British Council Cymru 2019

"Os yw Cymru am fod yn effeithiol wrth werthu ei hunan i'r byd, mae angen pobl ifanc sydd â sgiliau iaith da sy'n gallu manteisio ar gyfleoedd busnes a dylanwadu'n gadarnhaol ar weddill y byd. Mae hyn yn bwysicach fyth yng nghydestun Brexit gan y bydd mwy o angen nag erioed i Gymru estyn allan i weddill y byd. Gallai dirywiad parhaus ITM yn ein hysgolion niweidio gallu Cymru i wneud hynny yn y tymor hir."

**Jenny Scott, Cyfarwyddwr, British**

### Barn Diwydiant:

**John Cope, Pennaeth Polisi  
Addysgu a Sgiliau Cyd-  
ffederasiwn Diwydiant Prydain  
(CBI) 2019**


"Er mwyn gwireddu gweledigaeth y Llywodraeth am 'Brydain Fyd-eang, rhaid cynyddu'r niferoedd sy'n astudio ieithoedd neu mi fydd y DU yn cael ei gadael ar ôl."

"Mae'r galw am sgiliau Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Rhaid gwyrddroi'r lleihad yn y niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd mewn ysgolion neu mi fydd y DU yn llai cystadleuol ar y llwyfan byd-eang a'n pobl ifanc yn llai parod am y byd modern."

**A wyddoch chi beth sy'n  
digwydd yn eich ysgol?**

# leithoedd Modern yng Nghymru: y sefyllfa bresennol

## Y dirywiad yn nifer y cofrestriadau ITM yng Nghymru 2002-2019



Ers 2002, mae nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau mewn ITM yng Nghymru wedi lleihau 57% a mae'r nifer o gofrestrïadau Lefel A wedi haneru yn yr un cyfnod.

## Heriau sy'n wynebu adrannau leithoedd Modern

**STAFFIO:** nid oes gan nifer o adrannau ITM y nifer cyflawn o staff gyda 14% yn datgan ei bod hi'n anodd cadw staff o ansawdd uchel.

**ORIAU CYSWLLT:** ar gyfartaledd mae disgyblion yn derbyn llai na dwy awr yr wythnos o wersi leithoedd Modern

**GOSTYNGIAD YN NIFER Y BLOCIAU OPSIWN:** mae newidiadau i'r system opsiynau yng Nghymru yn golygu bod cyfran yr ysgolion lle mae llai na 10% o'r disgyblion yn astudio iaith ym mlwyddyn 10 wedi cynyddu i 43%.

**CYFYNGIADAU ARIANNOL:** mae'r niferoedd bach sy'n dewis leithoedd Modern fel pwnc TGAU ac ôl-16 yn golygu nad yw rhai ysgolion yn medru fforddio cynnal y cyrsiau yma.

**AGWEDD:** Mae cyflwyno'r cyrsiau TGAU a Safon uwch newydd wedi atgyfnerthu'r gred gyffredinol fod pynciau ITM yn heriol sydd ond yn addas ar gyfer y disgyblion mwyaf galluog.

Ffynhonnell: Tueddiadau leithoedd yng Nghymru 2018 British Council Wales Cymru

## Er hyn...

Mae cyrhaeddiad disgyblion mewn pynciau ITM ar lefel TGAU a Lefel A yn uwch nag mewn pynciau eraill. Llwyddodd **79% (Ffrangeg)**, **84% (Almaeneg)** and **73% (Sbaeneg)** o ddisgyblion Cymru i gael graddau A\*-C yn eu TGAU yn 2019 o gymharu â 49% mewn Mathemateg a 55% mewn Saesneg.


Gwnaeth astudiaeth ddiweddar gan Gorwel, melin drafod Gymreig, awgrymu'n gryf bod astudio ieithoedd modern ymhlith disgyblion a'r boblogaeth ehangach yn **"hanfodol os yw busnesau a masnach Cymru i barhau'n gystadleuol o fewn y farchnad fyd-eang yn y cyfnod ôl-Brexit"**

Ystyrir pum iaith fel y rhai pwysicaf i fuddiannau'r DU ar ôl Brexit.

Addysgir tair ohonynt yn eang yn ein hysgolion: **Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg**

## Pa raddedigion sy'n derbyn y cyflog mwyaf?

Enillion cymedrig blyneddol (£) fesul pwnc, pum mlynedd ar ôl graddio.



Ffynhonnell: Sefydliad Astudiaethau Cyllidol / BBC

# Sut y gallwch chi gefnogi eich adran ieithoedd modern

## Rhai cwestiynau allweddol i'w hystyried:

1. A yw eich ysgol yn ystyried ieithoedd fel pwnc allweddol? A yw hyn yn cael ei gyfathrebu'n glir i ddisgyblion, staff a rhieni gan yr Uwch Dîm Rheoli?
2. A ydych yn ymwybodol o'r tueddiadau yn nifer y disgyblion sy'n dewis astudio ieithoedd modern dros y pedair blynedd diwethaf yn eich ysgol ar lefel TGAU, UG ac A2?
3. A ydych chi'n gwybod sut mae disgyblion sy'n dewis ieithoedd modern wedi perfformio dros y pedair blynedd ddiwethaf—gan gynnwys yng Nghyfnod Allweddol 3?
4. Beth mae eich ysgol wedi ei wneud er mwyn gwyrddroi'r dirywiad yn y nifer sy'n dewis ieithoedd Modern, os oes yna un? Beth fu'r effaith?
5. A yw'r Uwch Dîm Rheoli wedi gwneud arolwg o'r niferoedd sy'n astudio Ieithoedd Modern? Beth oedd y canlyniadau?
6. A ydych yn ymwybodol o strwythur staffio cyfredol eich adran Ieithoedd Modern? A oes yna gefnogaeth i hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus pwnc penodol, ac a yw hyn yn rhan o'r adolygiad Rheoli Perfformiad?
7. A ydych chi'n gwybod beth mae disgyblion yn ei ddweud am astudio ieithoedd? A ydych wedi cynnal arolwg a defnyddio'r wybodaeth i lywio strategaeth yr ysgol? A yw Ieithoedd Modern yn rhan o Gynllun Gwella'r Ysgol ?
8. A ydych chi'n siwr y bydd ieithoedd rhyngwladol yn cael lle amlwg wrth i chi gyflwyno'r Cwricwlwm Newydd – a fydd pawb yn cael cyfle i astudio iaith?

### **Yn 2016 fe wnaeth ESTYN argymhell bod Penaethiaid ac Uwch Arweinwyr yn**

- 'Gwella nifer y dysgwyr sy'n astudio o leiaf un iaith dramor fodern ar lefel arholiad trwy adolygu eu trefniadau ar gyfer cynllunio ac amserlennu'r cwricwlwm'.
- 'Gwneud yn siwr bod eu hathrawon ieithoedd tramor modern yn gallu manteisio ar ddatblygiad proffesiynol parhaus "Dyfodol Byd-eang" a gynigir mewn rhanbarthau ac ar eu traws i wella ansawdd dysgu ac addysgu ieithoedd tramor modern'.

### **A ydych wedi trafod y rhain gyda'ch athrawon ITM ac fel corff llywodraethol?**

# Ffyrdd posibl o gynorthwyo eich adran Ieithoedd Modern



- ◆ Ailstrwythuro'r cwricwlwm er mwyn annog mwy o ddisgyblion i astudio iaith fodern.
- ◆ Sicrhau'r nifer priodol o oriau er mwyn addysgu ieithoedd yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4.
- ◆ Hyrwyddo pwysigrwydd ieithoedd tramor, e.e diwrnodau neu ysgolion haf iaith sy'n ysgogi, cyfoethogi ac sy'n ehangu gorwelion.
- ◆ Sicrhau perthynas dda a phontio effeithiol gydag ysgolion cynradd er mwyn ennyn diddordeb mewn Ieithoedd Modern.
- ◆ Cysylltu â phrifysgolion cyfagos, sefydliadau iaith, consortiwm rhanbarthol, awdurdodau lleol a busnesau.
- ◆ Gwneud defnydd o ddisgyblion a myfyrwyr sy'n Llysgenhadon Iaith trwy Lwybrau at Ieithoedd Cymru a chyn-ddisgyblion er mwyn hyrwyddo a chefnogi dysgu ieithoedd.

## Yr Athro Neil Kenny FBA, British Academy:

'Mae ieithoedd yn hanfodol ar gyfer masnachu, diplomyddiaeth a chymell tawel effeithiol, elfennau hanfodol ar gyfer llwyddiant y DU yn y dyfodol.'

## Yr Athro Catriona Seth, Cymrawd yn y British Academy:

'Mae dysgu ieithoedd yn ehangu'r meddwl, yn ein gwneud yn fwy goddefgar, yn ehangu datblygiad proffesiynol a phersonol, ac yn meddu ar effeithiau llesol hir-dymor ar gyfer ein iechyd a mae'n hwyl'

## Dwy ffordd lwyddiannus o gefnogi eich disgyblion:

### 1. Llysgenhadon Iaith Llwybrau at Ieithoedd Cymru (Myfyrwyr Ieithoedd Prifysgol)

Mae ein teithiau iaith personol ni i gyd yn wahanol ac yn unigryw, a dyna lle saif pŵer y gefnogaeth y gall ein myfyrwyr israddedig ni ei gynnig. O ddysgwyr i hwyluswyr, trwy adrodd eu straeon unigryw nhw neu trwy gynnal sesiynau blasu iaith neu ddiwylliant, mae ein myfyrwyr yn fodolau rôl y gall dysgwyr ifanc uniaethu â nhw. Fel unigolion amlieithog, gall ein llysgenhadon bwysleisio sut y gall bod yn ddwyieithog ac amlieithog agor drysau yn y dyfodol. Bydd y sesiynau yma'n cael eu cynnal yn ddigidol eleni gan ddarparu cyfle i ddisgyblion cynradd ac uwchradd ddefnyddio ieithoedd rhyngwladol mewn cyd-destun mwy pwrpasol.

Cysylltwch â Meleri Jenkins: [info@routesintolanguagescymru.co.uk](mailto:info@routesintolanguagescymru.co.uk)

### 2. Cynllun Mentora Myfyrwyr Ieithoedd Modern

Mae'r prosiect hwn yn cysylltu myfyrwyr israddedig sydd wedi eu hyfforddi o bedair prifysgol yng Nghymru gydag ysgolion uwchradd lleol, gyda'r bwriad o ysbrydoli pobl ifanc i ystyried dewis iaith fodern fel pwnc TGAU. Maent felly yn targedu disgyblion blynyddoedd 8 a 9. Eleni bydd y rhaglen yn gwbl dddigidol, gan ddefnyddio ystod gyffrous o ddulliau er mwyn rhoi profiadau rhithwir ysbrydoledig ar gyfer disgyblion. Nid yw'r prosiect yn canolbwyntio ar un iaith yn benodol, ond yn hytrach yn annog disgyblion i weld bod pob iaith yn bwysig ac yn werthfawr. Gallwn felly weithio gydag unrhyw ysgol a chroesawn ysgolion i gysylltu â ni am fwy o wybodaeth.

Cysylltwch â Lucy Jenkins: [jenkinsl27@cardiff.ac.uk](mailto:jenkinsl27@cardiff.ac.uk)

Os hoffech fwy o arweiniad, cysylltwch â ni: [info@routesintolanguagescymru.co.uk](mailto:info@routesintolanguagescymru.co.uk)

